Cofion

Mae Eurgain Pierce (Llannefydd) yn ein gweddïau'n gyson ac anfonwn ein cofion cynhesaf ati hi a'r teulu i gyd. Ar hyn o bryd, mae'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ond y gobaith yw y caiff ddod yn ôl i'r Inffirmari yn y dyddiau nesaf. Diolchwn amdani a gweddïwn ei bod yn adnabod gofal a chariad Duw yn ei hamgylchynu.

Parhawn i gofio am eraill o'n plith sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd hefyd. Gweddïwn y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen. Fe'u cyflwynwn i ofal Duw gan ofyn iddo warchod drostynt a thros eu hanwyliaid yr un modd.

Anfonwn ein cofion hefyd at Richard M. Jones (Cefn Berain) sy'n cael gofal yng Nghartref Gofal Tŷ Cariad, Abergele, fel ag y mae Gwen Evans (Saron) a Dilys Jones (Nantglyn) yng Nghartref Dolwen, Dinbych. Gweddïwn eu bod hwythau'n profi gofal a grym ein gweddïau drostynt.

Casgliad Cenhadol Chwiorydd y Gogledd (EBC)

Os ydych yn dymuno cefnogi gwaith cenhadol yn lleol a thramor, bydd trysorydd eich eglwys yn ddiolchgar o dderbyn eich cyfraniad **erbyn Dydd Sul, Ebrill 8fed**, os gwelwch yn dda. (***Nodyn i'r Trysoryddion:*** *Er mwyn galluogi'r Ofalaeth i drosglwyddo'r arian mewn da bryd, wnewch chi roi gwybod i Mair erbyn* ***Ebrill 10fed*** *gyfanswm casgliad eich eglwys, os gwelwch yn dda? Gallwch wedyn dalu'r arian i gyfrif yr Ofalaeth naill ai ar-lein, neu trwy anfon siec i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', mor fuan â phosib wedi hynny.)*

Cyfarfod Plant Pant Pastynog

Llawenhawn bod y clybiau plant yn parhau i gael eu cynnal yn gyson yn Festri Llansannan ac yn Ysgol Pant Pastynog. Diolchwn am y rhai sy'n cydweithio i redeg y clybiau gan sylweddoli na fyddai'n bosib eu cynnal heb yr arweinwyr a'r cynorthwywyr hyn.

Tîm Bro Dinbych sy'n arwain y gwaith yn Ysgol Pant Pastynog ac maen nhw'n gofyn yn garedig tybed oes rhywun o Fro Aled fyddai'n barod i fod yn rhan o'r tîm i helpu i redeg y sesiynau, os gwelwch yn dda? Mae nifer o blant o'r Fro hon yn mynychu'r ysgol yno, ac efallai bod rhiant, neu daid neu nain, neu unrhyw un yn wir sy'n gefnogol i'r gwaith fyddai'n barod i roi help llaw er mwyn sicrhau bod posib parhau i gynnal y clwb. Bob pythefnos ar bnawn Llun o 3:00 – 4:00 o'r gloch y maen nhw'n cyfarfod. Plîs cysylltwch â Sarah Dafydd (07900 308461 / sarah.dafydd@ebcpcw.cymru) os gallwch helpu.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 24 Mawrth 2024

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

"Teilwng yw'r Oen"

Un o'r darnau cerddorol mwyaf adnabyddus ydi'r "Meseia" gan Handel. Ers ei berfformio gyntaf yn Nulyn ym 1742 enillodd y gwaith ei le yng nghalonnau cenedlaethau o bobl ledled y byd ac yn arbennig yma yng Nghymru, lle y cafodd ei berfformio yn gyson. Yma rydym hefyd yn gyfarwydd â fersiwn modern yn dwyn y teitl "Teilwng yw'r Oen". Mae tystiolaeth enfawr bod yr Arglwydd Iesu wedi bod yn fodd i ysbrydoli pob math o gelfyddyd, yn gerddoriaeth, yn ddarluniau, yn lenyddiaeth a barddoniaeth. Bu dylanwad marwolaeth ac atgyfodiad Iesu yn fawr hefyd ar fywydau unigolion a theuluoedd a thrwy hynny ar fywyd cymunedau a gwledydd.

Yn ein gwlad ni bu'r Iesu yn destun siarad, myfyrdod a mawl a phobl yn canu "Teilwng yw'r Oen gas ei ladd, yr un a'n prynodd i Dduw trwy ei waed, i dderbyn gallu ac anrhydedd." Ond pam bellach y tawelodd y gân ac y peidiodd llawer â chael eu hysbrydoli ganddo? Efallai ei fod â wnelo'r ffaith nad ydym bellach yn aros i ystyried o ddifri pwy yw Iesu a beth a gyflawnodd. Gwn am lawer wnaeth eu meddwl i fyny am Iesu ar brofiad amser maith yn ôl yn yr Ysgol Sul pan yn blant. Onid ffolineb ydi gwneud penderfyniad ar rywbeth mor bwysig ar brofiad plentyndod? Daeth eraill i benderfyniad ar sail rhagfarnau a grëwyd wrth i bethau gael eu dweud a'u gwneud yn enw Iesu gan bobl amherffaith. Gofalwn wneud amser y Pasg hwn i ystyried yr Iesu. Galwad sydd gen i ar i bob un ohonom edrych eto ar Iesu. Agorwn ein Beiblau o'r newydd i fyfyrio arno. Ymunwn mewn addoliad a myfyrdod gyda'n gilydd ac ar ein haelwydydd. O wneud hynny, gwn y cawn ein hysbrydoli ganddo.

Cofiwn eiriau a neges yr Arglwydd, "Hedd yn awr i'm pobl medd eich Duw". Pwy fyddai'n gwadu bod angen hedd ar y byd ac yn ein calonnau ninnau? Daw'r hedd wrth i ni gredu yn Iesu Grist a'i gofleidio yn Arglwydd a Gwaredwr ein bywyd. Mae pobl ar hyd y canrifoedd wedi profi ei hedd a'i nerth ac wedi eu hysbrydoli ganddo. Profwn hedd ei gwmni a'i rannu gyda'n gilydd ac eraill.

Y Parch. R. O. Roberts

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Mawrth 24ain

- **Oedfa i'r Daith yng Nghefn Meiriadog** am 10:30 o dan arweiniad Mr Dewi Williams.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Meirion Morris. Bydd Ysgol Sul y plant yn Henllan am 10:30 ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa yn Groes.
- **Oedfa i'r Daith yn Nantglyn** am 2:00 y pnawn o dan arweiniad Mr Celfyn Williams.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnawn (a phob pnawn Sul arall).

Dydd Mawrth, Mawrth 26ain

- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Festri Capel Cefn Berain am 7:30 yr hwyr.

Dydd Gwener, Mawrth 29ain

- **Oedfa Bore'r Groglith (Y Fro)** – Oedfa gymun yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn am 10:30 o dan arweiniad y Parch. Gareth Edwards. Croeso i bawb.
- **Oedfa'r Groglith (Capel Cefn Berain)** am 7:00 yr hwyr. Pregethir gan Mr Arwel Roberts, Rhuddlan.

Dydd Sul, Mawrth 31ain

- **Gwasanaeth y Pasg yn Henllan** am 9:30.
- **Gwasanaeth Teulu yng Nghefn Berain** am 10:00.
- **Gwasanaeth Teuluol y Pasg yng Nghapel Llannefydd** am 10:00 a phaned a chacen i ddilyn.
- **Gwasanaeth i ddathlu'r atgyfodiad yng Nghefn Meiriadog** am 10:30 gyda phaned i ddilyn.
- **Oedfa Deuluol Sul y Pasg yn Llansannan** am 10:30 o dan arweiniad Mrs Nia W. Williams, Coleg y Bala a bydd plant 'Hwyl Pnawn Iau' hefyd yn cymryd rhan. Yn dilyn y gwasanaeth, bydd paned i bawb yn y Festri.

Dydd Mawrth, Ebrill 2il

- **Paned a Sgwrs yn Festri Llansannan** am 1:30 y pnawn a bydd sesiwn celf hefo Cath Williams.

Dydd Gwener, Ebrill 5ed

- **Paned a Sgwrs yng Nghapel Llannefydd** am 10:00. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Ebrill 7fed

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Treharne. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yng Nghefn Meiriadog am 10:15.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Gwyndaf Jones. Ar ddechrau'r oedfa yn Groes, fe fydd aelodau Capel Groes yn cael cyfle, trwy bleidlais gudd, i fynegi eu barn ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid. Bydd Ysgol Sul y plant yn Henllan am 10:00 ac Ysgol Sul yr oedolion yn Groes am 10:15.
- **Oedfa yn Saron am 10:00 ac yn Nantglyn** am 2:00 y pnawn o dan arweiniad Mr Alun Jones.

Rhaghysbysiad – Medalau Gee

Cynhelir oedfa arbennig yng Nghapel Groes ar Ebrill 14eg am 5:30 yr hwyr pryd y bydd tri o'r aelodau yn derbyn Medal Gee am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul. (Cawn gyfle i'w llongyfarch yn y rhifyn nesaf.) Bydd yr oedfa o dan arweiniad y Parch. Aled Davies. Croeso cynnes i bawb.

Rhagrybudd – Ethol mwy o flaenoriaid

Ar ddechrau'r oedfaon ar Ebrill 14eg, fe fydd aelodau Eglwys Unedig Llansannan ac aelodau Capel Y Waen, Nantglyn yn cael cyfle, trwy bleidlais gudd, i fynegi eu barn ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid. *(Bydd aelodau Capel Groes hefyd yn pleidleisio ar Ebrill 7fed – gweler uchod).*

Gŵyl Llanw 2024

Cynhelir yr ŵyl Gristnogol hon eleni eto yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog rhwng Ebrill 1af–5ed. Y prif siaradwr bore Mawrth, bore Mercher a bore Iau fydd Arfon Jones, ac o nos Lun ymlaen, bydd Martyn Geraint, Heulwen Davies, Steffan Jones, Steff Morris a Lois Franks ac eraill yn arwain yr oedfaon/cyfarfodydd gyda'r nos. Bydd darpariaeth ar gyfer y plant a'r ieuenctid hefyd. Cymraeg fydd iaith holl weithgaredd a chyfarfodydd Llanw ond bydd offer cyfieithu ar gael yn y prif oedfaon.

Mae'r holl lety wedi gwerthu allan ers wythnosau ond bydd croeso cynnes i ymwelwyr dyddiol. Ceir manylion pellach, amserlen lawn a manylion prynu tocynnau dydd ymlaen llaw ar y wefan: llanw.org. Bydd croeso i chi fynd yno ar y diwrnod i fynychu'r oedfaon a'r seminarau, ond os ydych yn dymuno ymuno yn y prydau bwyd, bydd angen prynu tocyn dydd ymlaen llaw.

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (3ydd), os gwelwch yn dda.